# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar yr 9fed o Fawrth 2022
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn
# am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Jones,
Gerallt Davies a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Ein Cynghorwr Sirol Marc Davies, Cynghorwyr Carys Morgan,
Garym Roberts, Jocelyn Andrew, Wyn Evans a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Chwefror a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
Rhif Cais A211179.
Gorsaf Betrol Dryslwyn, Llwyncelyn, Ceredigion. SA46 0HF.
Arddangos arwyddion.
Dim gwrthwynebiad.

**Cau Ffordd Dros Dro:**
Derbyniwyd hysbyseb fod yr heol C1062 ger Cae Haidd yn mynd i fod ar gau ar yr 28ain a'r 29ain o Fawrth i osod polion.

**Aelodaeth Un Llais Cymru:**
Penderfynwyd ymuno ag Un Llais Cymru eleni eto, a'r ffi yw £183.00.

**Ceisiadau am arian:**
Paswyd yn unfrydol i roi y rhoddion ariannol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 |
| C. Ff. I. Ceredigion | £200.00 |
| Macmillan Cancer Support | £250.00 |
| Gofal Mewn Galar | £250.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £250.00 |
| Oxygen Therapy | £250.00 |
| Beiciau Gwaed Cymru | £100,00 |
| Josh Tarling | £500.00 |

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y clerc fod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi dwy fainc i'r gymuned a gwnaeth drefniadau i'w lleoliadau yng Ngardd Goffa Derwen Gam ac ar bwys y sticil ger Pencarreg, Ffos-y-ffin.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 13eg o Ebrill.